Cofnodion Cyngor dros Zoom nos Iau Ionawr 13 2021 am 7pm
Presennol: M.Chapman, L.Roberts, E.R.Noble, M.Skerrett, Marion L Hughes, C.Brewer, C.L.Price.
Ymddiheuriadau: T.W.Jones
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 10.12.20, cynnig M.Skerrett, cefnogi C.Brewer

Adroddiad Liz. Roedd L.Roberts wedi paratoi adroddiadau perthnasol i rai eitemau ac eto roedd rhain yn hynod o ddefnyddiol i'r Aelodau.

Goleuadau. Roedd pawb yn cytuno fod y 'goleuadau' ar y polion hyd rhan o'r A470 drwy'r pentref wedi bod yn effeithiol iawn ac yn werth eu gweld, derbyniwyd canmoliaeth gan sawl un o'r pentref. Darren Jones oedd yn gyfrifol am hyn gyda'r trydannwr W.Faulkner yn cynorthwyo, Clerc i anfon llythyr diolch atynt. Mae cyfle i'w goleuo ar unrhyw adeg pan fydd digwyddiad yn y pentref. Clerc wedi talu i'r cwmni am y goleuadau, Liz i gysylltu â Darren i holi am ei gostau.

Heddlu. Deallwyd fod yr Heddlu yn ymweld â'r pentref yn rheolaidd.

Yr A470. Dim i'w adrodd.

Cyngor Sir. Deallwyd fod gwaith arbennig wedi'i gwblhau ar yr hen ffordd Penrhiw/Castell a Sarn Helen, Clerc i anfon i ddiolch i CBSC am hyn. I.Davies wedi bod ynglŷn â hyn hefyd. Gwaith draenio i gymryd lle ar Allt Singrig.

Llwybrau. L.Roberts wedi tynnu lluniau camfeydd yr ardal ac yn trafod ynglŷn â chael camfeydd hwylus ar gyfer cŵn. Mae hi wedi holi pam fod clo ar giat ar lwybyr yn ardal Pont y Pant.

Yr Orsaf. L.Roberts wedi bod yn trafod sefylla gwael y byrddau picnic gyda'r Parc Cenedlaethol, gall fod grant ar gyfer rhai newydd o'r Parc, maent yn awgrymu cael byrddau addas ar gyfer pobl gydag anableddau. Mae cwmni o Lanrug yn gwneud rhain, Liz mewn cysylltiad â hwy. Dolwyddelan yn ei Blodau yn gwneud cais i'r Parc am grant cymunedol ar gyfer hyn. Maent eisoes wedi cael grant gan Y Dref Werdd Blaenau Ffestiniog ar gyfer mainc a planhigion ar gyfer tir yr Orsaf. Cynigodd M.Skerrett gyda C.Brewer yn cefnogi y dylid symud ymlaen i archebu'r meinciau, Liz i drefnu.

Pont Carreg Alltrem. M.Grant yn cadarnhau bod y gwaith wnaed ar y safle ym mis Awst wedi setlo a bod gwaith cynnal i'w gwblhau ar y llwybrau y mis hwn. Mae problem gyda rhai ar 'Quad bike' a beic modur yn yr ardal, maent wedi gosod meini i geisio'i rhwystro.

Gwasanaeth Bysiau/Trenau. Mynegwyd siomiant mawr gyda'r newydd fod nifer y trenau dyddiol i'w cwtogi i 4 y dydd? Yr X19 yn dal i redeg - disgwyl cael newyddion am y gwasanaeth Traws Cymru - yr X19 i ddod yn wasanaeth Traws Cymru trydannol?

Pontydd yn yr Ardal. B.Shiland CBSC yn cadarnhau bod y cais ar gyfer Pont Sarn Ddu wedi'i wrthod ond wedi rhagor o drafodaethau mae'n obeithiol y gall gwaith ddechrau yno ym Mis Mai?

Cydnabyddiaeth Aelodau - Trafod yn y cyfarfod nesaf.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.

Llifogydd. Ni chafwyd diweddariad.

Coeden Nadolig. Clerc i gysylltu â A.Farrar o ran talu am y goeden ac unrhyw waith arall.

Scottish Power. Dywedodd L.Roberts bod y cwmni yn dod yn ôl i gwblhau'r gwaith yn y flwyddyn newydd.

Band eang. Cafwyd cyfarfod gyda R.Miller AS ar Ragfyr 18, cyfarfod nesaf Ionawr 29. Buasai trefnu hyn yn ardal Roman yn gostus. W.Valintine wedi cysylltu gyda L.Roberts a'r Clerc i egluro'r drefn gyda'r 'rhwydwaith LoraWen' mae CBSC wedi'i gyflwyno yn ysgolion y Sir. Cafwyd gwybodaeth ar sut i gael rhagor o fanylion am hyn.

NRW. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod oedd wedi cymryd lle gyda NRW - yn hanesyddol mae trigolion Pentre Bont wedi gwneud trefniadau parcio ei hunain, nid oedd yr aelodau yn ffafrio cyflwyno trefn trwyddedau. L.Roberts i gyfleu hyn i NRW.

Terfyn gyrru. Arwyddion 20mya ym Maes y Braich, Pentre Bont a ger yr Ysgol, Hoffai Liz gael sylwadau gan yr Aelodau i'w cyfleu i W. Roberts, un sylw wnaed oedd y buasai cael arwydd 20mya drwy'r pentref yn addas? Cytunwyd fod angen gwneud rhywbeth.

Toiledau. Cytunwyd y dylid gosod hysbyseb yn gofyn i rai a diddordeb yn y gwaith o lanhau'r toiledau i gysylltu â'r Clerc. Wedi iddynt gael eu cwblhau bydd yn haws ystyried baint o waith fydd i'w wneud yno. Clerc i gysylltu eto gyda S.Teale am gyfarfod a dyddiad cwblhau'r gwaith.

Y Fynwent/Gofgolofn. Cafwyd cyfarfodydd adeiladol iawn yn y Gofgolofn a'r Fynwent.
Gyda'r gwaith yn y Gofgolofn cytunwyd i ofyn i berson ddod i gael golwg ar y safle gyda'r bwriad o gael cynllun tirlunio ganddo i'w ystyried gan gadw mewn cof y cynllun roedd A.Farrar (Ginge) wedi'i gynnig. Cafwyd golwg ar gyflwr y meinciau o fewn y safle. Clerc i anfon i ddiolch i Ginge am drefnu y gwaith arbennig o dorri a chlirio'r coed yn y safle.

Yn y Fynwent cafwyd golwg ar gyflwr y ddwy goeden fawr ger y cwt a cytunwyd i ofyn i Dylan gynnig amcan gyfrif ar gyfer torri y lleiaf o'r ddwy gan fod ei chyflwr yn wael, hefyd gofyn iddo roi pris am glirio'r iddew ac ati sy'n gorchuddio'r cwt. Clerc i gysylltu â D.Williams i gael caniatad i fynd ar ei dir. Cytunwyd i ofyn i Les Roberts am bris i glirio a thirlunio'r tir ar gyfer y cwt. Hefyd ceisio pris ar gyfer ffens yn y tir ar gyfer y cwt ac ar gyfer ail godi rhannau o'r wal derfyn ble mae angen gwneud hynny.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu yn cynnwys ail gyflwyno siec i CBSC ar gyfer y Clwb Ieuenctid, biliau i'w talu cynnig M.L.Hughes, cefnogi C.Brewer.

Archeb 2021/22. Roedd y Clerc wedi dosbarthu adroddiad manwl i gynorthwyo'r Aelodau - cafwyd trafodaeth fanwl gan gofio y bydd angen ystyried cynnal y toiledau o hyn allan a'r gwariant fydd ar gyfer gwaith yn y Gofgolofn a'r Fynwent ar wahan i'r costau arferol. Cynigodd M.Skerrett gyda C.Brewer yn cefnogi a phawb o blaid, y dylid cadw at y ffigwr o £10,000.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Clerc i alw cyfarfod Zoom arall yn nechrau mis Chwefror.